

UNED : Y FUWCH EIDION – MAETHU A PHORTHI

CYFLWYNIAD

Mae porthiant yn gost anferth mewn unrhyw system buches eidion neu sugno. Bydd maethu a phorthi addas yn ystod pob cam allweddol yn y gylchred gynhyrchu, a thrin cyflwr corfforol y fuwch yn ofalus yn golygu ffrwythlondeb uchel, lloia rhwydd, lloi'n cael eu geni'n iach, colostrwm o ansawdd a chynnyrch llaeth uchel, yn ogystal â hir oes a chadw costau i lawr - i gyd yn sicrhau proffidioldeb.

Y PRIF GYFNODAU YN Y GYLCHRED GYNHYRCHU

- CYFNOD Y FUWCH SYCH A PHARATOI AR GYFER LLOIA - fel arfer, golyga rheoli buwch sych reoli ei chyflwr corfforol i osgoi problemau lloia. Bydd unrhyw adferiad cyflwr corfforol ar ôl lloia a llaetha buan, yn digwydd o leiaf 50 diwrnod cyn lloia, a dylid osgoi unrhyw newid mewn cyflwr corfforol ar ôl y pwynt hwnnw.
- LLAETHA – mae gan fuchod angen deiet o ansawdd uchel os ydyn nhw'n mynd i gynhyrchu digon o laeth i fagu llo.
- LLOIA HYD AT FEICHIOGI - o fewn tri mis i loia, a thra mae'r cynnyrch llaeth ar ei orau, disgwylir i fuchod feichiogi a dod yn gyflo eto. Mae maeth yn hanfodol yn yr amser yma, yn enwedig i heffrod yn lloia am y tro cyntaf sydd yn dal ar eu prifiant, a phwysau mawr arnynt i dyfu, cynhyrchu llaeth, cadw eu cyflwr a beichiogi.

MAETHU A PHORTHI

BUCHOD SYCH A PHARATOADAU AR GYFER LLOIA - gellir lleihau biliau porthiant gaeaf ar gyfer y buchod sy'n lloia yn y gwanwyn, a lleihau gofynion pori canol a diwedd yr haf y buchod sy'n lloia yn yr hydref, yn sylweddol. Bydd angen rheoli gofalus ar wartheg sy'n rhy denau a rhy dew rhwng 150-50 diwrnod cyn lloia i osgoi problemau - diddyfnu cynt neu hwyrach nag arfer, ac ansawdd a maint. Dyma'r opsiynau rhatach i osgoi buchod rhy dew yn y cyfnod hwn:

- Buchod yn lloia yn y gwanwyn
 - Pori wedi ei ymestyn – yn cynnwys cnydau porfwyd wedi eu dogni e.e. sofl maip neu gêt
 - Pori gohiriedig - glaswellt wedi'i gadw o ganol yr haf ar gyfer pori yn gynnar yn y gaeaf
 - Sofl - gall sofl gaeaf fod yn ddigon i'r gwartheg ei bori os bydd gwellt, gwair, silwair neu isgynnyrch tir â'r e.e. tatws, yn cael eu hychwanegu hefyd

- Porfwydydd aeddfed – bydd silwair neu wair a dorrir yn aeddfed, neu wellt yn addas ar gyfer llawer o systemau, yn enwedig dan do

Dognau Arferol i fuwch sych 650kg (kg / dydd)

| Porthiant | Silwair yn unig | Silwair a gwellt | Gwellt, Mwydion betys siwgr a glwten India corn |
|---------------------|-----------------|------------------|---|
| Silwair | 27.2 | 15.0 | |
| Gwellt Barlys | | 6.2 | 5.0 |
| Mwydion betys siwgr | | | 2.0 |
| Glwten India corn | | | 2.5 |

Gweithgaredd – cyfrifo gofynion porthiant (a chostau)

- Buchod yn lloia yn yr hydref
 - Porfa arw - gall y gwartheg bori ar dir bryniog neu ar borfa arw (yn aml fel rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd). Bydd digon o fwyd garw i gadw cyflwr corfforol y fuwch, ac, ar yr un pryd gwella ansawdd y borfa i ddefaid neu ar gyfer cadwraeth.
 - Sofl - bydd sofl ddiwedd haf yn aml yn rhoi digon o fwyd garw gyda neu heb wellt, gwair, silwair neu isgynnyrch tir âr.

LLAETHA

- Pori ansawdd uchel – mae glaswellt yn yr haf, neu efallai gnydau porfwyd fel sofl erfin neu gël yn yr hydref a'r gaeaf, yn rhoi porfa o ansawdd da i fuchod yn lloia yn y gwanwyn a'r hydref
- Porfwyd o ansawdd uchel – bydd raid i fuchod dan do sydd yn lloia yn yr hydref gael porfwyd o ansawdd uchel neu atchwanegion gyda dwysfwyd, er mwyn cael cynnyrch llaeth uchel

Dogn Nodweddiadol i fuwch godro 650kg (kg / dydd)

| Porthiant | Silwair | Gwellt, mwydion betys siwgr, a glwten India corn |
|---------------------|---------|--|
| Silwair | 40.0 | |
| Gwellt | | 6.0 |
| Dwysfwyd | 2.0 | |
| Mwydion betys siwgr | | 2.0 |
| Glwten India corn | | 6.0 |

- Wrth i'r llo dyfu a dod yn agos at amser diddyfnu, bydd cynnig didolborthi yn gwneud dau beth. Bydd yn cynyddu cyfradd tyfiant a pharatoi'r llo ar gyfer ei ddiddyfnu heb golli pwysau na chyflwr. Bydd hefyd yn lleihau'r pwysedd ar y fuwch wrth iddi adennill ei chyflwr corfforol mewn amser allweddol yn ei chylchred cynhyrchu.

LLOIA HYD AT FEICHIOGI – bydd angen i fuwch sydd newydd loaia

- Ddod dros y lloia
 - Gynhyrchu llaeth i'r llo
 - Ail ddechrau cylchredau gofyn tarw / oestrws
 - Ddechrau adennill ei chyflwr corfforol
- Os na chaiff y fuwch ddigon o borthiant yr adeg yma, bydd cynhyrchu llaeth yn cael y flaenoriaeth, bydd y fuwch yn colli cyflwr corfforol, ac ni fydd y gylchred oestrws yn dechrau
 - Rhan bwysicaf y deiet ydi egni, a rhaid amseru'r lloia pan fydd porthiant rhad o'r ansawdd gorau ar gael (fel arfer, glaswellt) neu gynhyrchu neu brynu porthiannau amgen.

PORTHIANNAU NODWEDDIADOL

- Porfa – fel arfer, prif gynheiliad systemau buches eidion gan mai dyma'r porthiant rhataf ym mwyafrif ardaloedd y wlad
- Silwair neu wair - fel arfer, prif borthiant y gaeaf - rhaid i'r ansawdd maethol fod yn uchel ar gyfer buchod yn lloia yn yr hydref. Ond canlyniad rhoi silwair o ansawdd

uchel heb ei ddogni fyddai cael buchod tewion yn lloia yn y gwanwyn a lloia anodd. Dydi silwair a gwair ddim yn rhad, a rhaid ystyried yn ofalus ansawdd y ddau gnwd a gynhyrchwyd, ac a oes porthiant amgen, rhatach i'w gael.

- Gwellt - gall chwarae rôl bwysig fel rhan o ddeiet gaeaf buchod yn lloia yn y gwanwyn, rhwyddineb lloia, a chadw costau porthi i lawr.
- Cnydau Porfwyd – yn enwedig mewn systemau gaeafu tu allan. Cnydau tebyg i soft maip neu gêl ar gyfer cynhyrchu porthiant o ansawdd uchel, stocio dwys, a phorthiant gaeaf amgen rhatach
- Isgynnyrch e.e. gall gronynnau bragwyr neu ddistyllwyr a chnydau gwraidd fel tatws neu fetys siwgr dros ben, fod yn borthiant amgen rhatach, os oes lle storio, ac os gallan nhw gael eu trin a'u porthi'n hawdd
- Dwysfwyd - os nad ydi'r buchod mewn cyflwr gwael iawn, y silwair o ansawdd gwael iawn a dim porthiant amgen ar gael, mae cost dwysfwydydd ar ffurf grawnfwydydd, blendiau neu gyfansoddion fel arfer yn rhy ddrud, os na fyddan nhw'n cael eu porthi'n strategol ar gyfnodau allweddol yn y gaeaf i sicrhau beichiogi, yn enwedig mewn buchod sy'n lloia yn yr hydref.

CYLLIDO PORTHANT

Bydd cynllunio ymlaen llaw yn golygu gwneud y defnydd gorau o borthiant mewn stoc, yn ogystal â chael cyfle i chwilio am y porthiant amgen gorau, os ydi ansawdd neu swm y porthiant adre yn ddiffygiol.

- Dosbarth da byw – buchod, heffrod, teirw, lloi sugno
- Nifer yr anifeiliaid
- Targed cynhyrchu
- Hyd y cyfnod porthi
- Porthiant sydd ar gael ac ansawdd y porthiant (dadansoddiad)
- Gofynion
- Porthiant amgen a gwerth am arian

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2007) Beef Action for Profit 21 – Better Returns from Reducing Metabolic Disorders

HCC (2006) Maethu Ymarferol mewn Gwartheg Eidion

Cyswllt Ffermio (2008) Cyllido Porthiant ar gyfer y Gaeaf, Tach 2008